



Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg
3 Gorffennaf 2024 am 09:30-11:30 Cofnodion

Yn bresennol:		
Enw	Teitl	Sefydliad
Y Cyngorydd Lis Burnett (LB)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Tom Bowring (TB)	Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol	Cyngor Bro Morgannwg
Estelle Hitchon (EH)	Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu	Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Rob Thomas (RT)	Prif Weithredwr	Cyngor Bro Morgannwg
Y Cyngorydd Shirley Hodges (SH)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref y Barri
Charles Janczewski (CJ)	Cadeirydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol	BIP Caerdydd a'r Fro
Suzanne Rankin (SR)	Prif Weithredwr	BIP Caerdydd a'r Fro
Claire Beynon (CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Estella Enos (EE)	Uwch Reolwr Cymorth Gweithredol / Dirprwy Bennaeth	Gwasanaeth Prawf Cymru
Rachel Connor (RC)	Prif Swyddog Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
Danny Richards (DR)	Prif Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru
Karen Lamprey (KL)	Pennaeth Cynorthwyol Cwricwlwm	Coleg Caerdydd a'r Fro
Andy Robinson (AR)	Arweinydd Tîm Pobl a Lleoedd	Cyfoeth Naturiol Cymru
Judith Cole (JC)	Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau'r Gweithlu	Llywodraeth Cymru
Mai Amerrah (MA)	Cydlynnydd Cenedlaethau'r Dyfodol	Trafnidiaeth Cymru
Hefyd yn bresennol:		
Helen Moses (HM)	Rheolwr Gweithredol Strategaeth a Mewnwelediad	Cyngor Bro Morgannwg
Dafydd Sedgwick (DS)	Intern Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Fisher Lloyd (FL)	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Mewnwelediad	Cyngor Bro Morgannwg
Phil Chappell (PC)	Rheolwr Gweithredol, Adfywio	Cyngor Bro Morgannwg

Iain McMillan (IM)	Pennaeth Rheoli Adnoddau a Diogelu	Cyngor Bro Morgannwg
Miki Miyata-Lee (MML)	Uwch Swyddog – Gweithrediadau Canolbarth y De	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ymddiheuriadau:		
David Letellier (DL)	Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mark Brace (MB)	Comisiynydd Cynorthwyol	Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
Natalie Rees (NR)	Pennaeth Datblygu Cynaliadwy a Newid Hinsawdd	Trafnidiaeth Cymru
Sarah Tipping (ST)	Pennaeth Partneriaethau Strategol ac Ymgysylltu	BIP Caerdydd a'r Fro

Rhif	Eitem Agenda	Cam Gweithredu
1.	<p>Croeso a Chyflwyniadau - Rob Thomas, Prif Weithredwr, Cyngor Bro Morgannwg</p> <p>Croesawodd a chyflwynodd RT bawb i gyfarfod y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC).</p>	
2.	<p>Ymddiheuriadau am Absenoldeb - Andreas Pieris-Plumley, Swyddog Polisi, Cyngor Bro Morgannwg</p> <p>Gweler y rhestr lawn o ymddiheuriadau uchod.</p>	
3.	<p>Penodi i swyddi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd – Rob Thomas, Prif Weithredwr, Cyngor Bro Morgannwg</p> <p>Gofynnodd RT a oes unrhyw enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd.</p> <p>Enwebodd CJ LB.</p> <p>Eiliodd SH yr enwebiad.</p> <p>Llongyfarchodd RT LB ar ddod yn gadeirydd am flwyddyn arall.</p> <p>Gofynnodd RT a oes unrhyw enwebiadau ar gyfer penodi Is-gadeirydd.</p> <p>Enwebodd SH MB.</p> <p>Eiliodd LB hynny.</p> <p>Nododd RT nad oedd unrhyw enwebiadau eraill - MB fydd Is-gadeirydd am flwyddyn arall.</p>	
4.	<p>Cofnodion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 9 Ebrill 2024– Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</p> <p>Cytunwyd bod y cofnodion yn adlewyrchiad gwir a chywir.</p>	

	<p>Cadarnhaodd HM y byddai nifer o gydweithwyr ar draws gwahanol bartneriaid BGC yn cymryd rhan yn Rhaglen ICC Llundain Lleuedd ar gyfer Lles yng Nghymru.</p>	
<p>5.</p>	<p>Asesiad risg Newid Hinsawdd (dilyniant o fis Ebrill) – Andy Robinson, Arweinydd Tîm Pobl a Lleuedd, Cyfoeth Naturiol Cymru</p> <p>Nododd AR fod y cynnig i gynnal yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd ym mis Ebrill wedi cael ei drafod. Fel y gofynnwyd gan y BGC, gofynnwyd i is-grwpiau AM a CC y BGC ystyried yr asesiad risg a gwneud argymhelliad i'w symud ymlaen. Roedd pryderon ynghylch argaeledd adnoddau ac arbenigedd i gynnal yr asesiad.</p> <p>Dywedodd AR na roddwyd adborth gan aelodau is-grŵp yn y cyfarfod a drefnwyd felly rhoddwyd y cyfle i ymateb drwy e-bost a dim ond un ymateb a dderbyniwyd gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro o fewn y BIP. Mae'r diffyg ymateb yn bryder ac mae'n golygu na ellir gwneud argymhelliad ar hyn o bryd o ran sut neu os i fwrw ymlaen. Gofynnodd AR i'r BGC am amser ychwanegol i ystyried opsiynau ac i drafod gyda phartneriaid yn unigol.</p> <p>Ymddiheurodd EH am y diffyg ymateb gan YGAC ac amlygodd adnoddau. Dim ond 1-2 o bobl sydd gan YGAC ar yr agenda hon ac mae ganddo gyfrifoldebau adrodd lluosog sy'n golygu bod y llwyth gwaith a'r mecanweithiau adrodd amrywiol yn llethol. Nid diffyg ewylllys sy'n gyfrifol am ddiffyg ymgysylltu a dylid ei wneud mor hawdd â phosibl i gydweithwyr gymryd rhan yn y drafodaeth a chydweithio heb ormod o fiwrocratiaeth.</p> <p>Cadarnhaodd CB yr ymateb gan dîm iechyd y cyhoedd. Nodwyd bod y rhan fwyaf o bartneriaid yn cwmpasu ardal Caerdydd a'r Fro ac felly gellid gwneud rhywbeth ar y cyd i gael un broses ar draws Caerdydd a'r Fro. Awgrymodd CB ariannu rheolwr prosiect i ddatblygu'r gwaith ac eglurodd nad oes gan y tîm y gallu i arwain y gwaith ond y byddai'n cefnogi effeithiau sy'n gysylltiedig ag iechyd newid yn yr hinsawdd a chyfrannu. Mae'n bwysig blaenoriaethu'r asesiad risg hwn gan fod newid yn yr hinsawdd yn bwysig ond mae angen cydweithio hefyd i osgoi dyblygu.</p> <p>Esboniodd EM fod yr asesiad risg wedi'i gymryd i Is-grŵp AM a CC BGC i ofyn barn partneriaid ar bryderon, budd-daliadau a sut i gyfrannu. Fodd bynnag, ni wnaeth unrhyw un gyfrannu at y drafodaeth yn y cyfarfod. Roedd y diffyg ymgysylltu yn peri pryder ac yn codi cwestiynau ynghylch sut y byddai partneriaid yn cymryd rhan ac yn defnyddio'r cynnyrch terfynol - dydyn ni ddim eisiau cychwyn ar rywbeth na fydd neb yn ei ddefnyddio. Roedd ymateb y tîm iechyd cyhoeddus yn galonogol ond mae gofyn i bartneriaid gymryd rhan mewn sawl asesiad yn peri pryder ac efallai y bydd angen i'r BGC drafod ymhellach gyda Llywodraeth Cymru i nodi datrysiad.</p> <p>Nododd LB nad oedd mwy o ymateb.</p> <p>Bydd HM ac AR yn edrych ar sut i fwrw ymlaen â hyn.</p>	

		AR/HM
6.	<p>Diweddariad Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro – Iain McMillan, Pennaeth Rheoli Adnoddau a Diogelu, Cyngor Bro Morgannwg</p> <p>Eglurodd IM fod strwythur llywodraethu'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi newid ychydig oherwydd ymgynghoriad y llynedd. Bydd y trefniadau llywodraethu diwygiedig yn creu dull symlach; Bydd dangosfyrddau data yn caniatáu i oruchwylio cynnydd, bydd strategaeth ecsbloetio a datganiad sefyllfa yn cael eu hadolygu, bydd y strategaeth esgeuluso plant a phhecyn cymorth hunan-esgeuluso oedolion yn cael eu lansio ym mis Medi, bydd rheolwr adolygu newydd a benodir i oruchwylio'r holl adolygiadau ymarfer/ADUS a hyfforddiant yn cael eu darparu i aelodau panel adolygu ymarfer/adolygwyr.</p> <p>Dywedodd IM fod y newidiadau hyn wedi caniatáu sail perfformiad lleol mwy eglur o fonitro i fynd i'r afael â materion lleol yn gyflymach ac ar y cyd, gan dynnu sylw at arfer da a thrafodaethau amlasiantaethol. Dywedodd IM y bu llawer o adborth cadarnhaol gan bartneriaid.</p> <p>Uchafbwyntiau allweddol a restrwyd gan IM: cwblhau Peilot Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, wythnos ddiogelu gyda nifer o siaradwyr allweddol, cofrestr risg gadarn, cynnydd gyda'r rhwydwaith perfformiad cenedlaethol a sefydlu rhwydwaith swyddogion hyfforddi.</p> <p>Nododd IM lwyddiant y gynhadledd ddiogelu. Mae'r gofrestr risg bellach yn fwy cadarn, ac mae'r fframwaith perfformiad cenedlaethol wedi cael cynnydd. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer 2024-25 fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Blaenoriaeth 1 - Hanfodion diogelu i gefnogi gwelliant strategol, partneriaethau effeithiol a datblygu'r gweithlu trwy ganolbwyntio ar lywodraethu a busnes craidd, hyfforddiant amlasiantaethol, data a mewnwediadau, archwilio a gwerthuso a chyfathrebu ac ymgysylltu. • Blaenoriaeth 2 - Adolygiadau diogelu effeithiol i sicrhau bod prosesau adolygu ac adolygu dysgu effeithiol yn cael eu gweithredu ar draws y bartneriaeth drwy ddatblygu proses adolygu a rhannu ac ymgorffori dysgu. • Blaenoriaeth 3 - Ymateb i themâu diogelu drwy gefnogi'r gwaith o gydlynu ymateb amlasiantaethol effeithiol trwy ganolbwyntio ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, Cam-drin Domestig a Chapasiti a Chydsyniad. <p>Nododd LB ei bod yn dda gweld cyflwyniad mor integredig ar yr union faterion, sut y byddant yn cael sylw a'r ffordd ymlaen. Mae diogelu yn rhywbeth y mae'n rhaid i bob partner ei gwmpasu, ac mae'n hanfodol cael trefniadau cadarn.</p>	

	<p>Gofynnodd SR pa alluogwyr sydd eu hangen i sicrhau y gellir cyflawni blaenoriaethau'r cynllun, yn enwedig gwybodaeth a rhannu a data a mewnwleidiad.</p> <p>Roedd IM yn cydnabod y gallent wneud gyda mwy o adnoddau ond cânt eu helpu gydag arbenigedd partneriaid sy'n defnyddio Power BI a dangosfyrddau data.</p> <p>Nododd SR eu bod yn hapus i gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud.</p> <p>Adleisiodd LB yr angen i rannu data ar draws yr holl bartneriaid a fydd yn cryfhau gweithgareddau cydweithredol.</p> <p>Diolchwyd i IM am y cyflwyniad ac am ddod i'r cyfarfod.</p>	
<p>7.</p>	<p>Partneriaeth y Barri - Phil Chappell, Rheolwr Gweithredol dros Adfywio a Chynllunio, Cyngor Bro Morgannwg:</p> <p>Dywedodd PC mai Partneriaeth y Barri yw'r rhaglen drefol hirdymor i dargedu ardaloedd a adawyd ar ôl gan gyllid Ewropeaidd. Cyhoeddodd llywodraeth y DU £1.1biliwn i 55 o drefi'r DU. Mae cronfa waddol flynyddol gwerth £2 filiwn ar gyfer y Barri sydd â hyblygrwydd i'r bartneriaeth. Mae hyn yn 75% cyfalaf a refeniw o 25%. Mae'n rhaid i'r bartneriaeth gynllunio rhaglen 3 blynedd gychwynnol ar sut i ddefnyddio a dyrannu'r £6 miliwn cyntaf. Mae tair thema:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Diogelwch - Mae llywodraeth y DU yn nodi pethau fel plismona ychwanegol. Gall partneriaid wyro o hyn ond rhaid iddynt gyflwyno tystiolaeth ar gyfer penderfyniadau. 2. Stryd Fawr, treftadaeth, adfywio – Yn cynnwys prynu ac adnewyddu, gweithgareddau pobl ifanc, creu parciau a mannau gwyrdd, safleoedd treftadaeth, glanhau'r strydoedd. 3. Trafnidiaeth a chysylltedd – gwneud pobl yn ddiogel ac yn gallu symud o gwmpas y Barri (anodd oherwydd topograffi). Yn cynnwys noddi llwybrau bysus, creu cysylltiadau gwyrdd, annog cerdded a beicio. <p>Dywedodd PC fod Llywodraeth y DU yn benodol ynglŷn â sut i sefydlu'r bartneriaeth. Er enghraifft, mae'n rhaid bod ganddo AS a chynrychiolydd heddlu ond ar hyn o bryd mae ganddo 8 o bobl ar gyfer partneriaeth â ffocws a bydd yn cael ei gefnogi gan is-grwpiau. Mae rhai bylchau a gellir eu tyfu i 14. Mae'r bartneriaeth am ganolbwyntio ar feysydd sydd mewn angen er enghraifft Dwyrain y Barri. Mae ei nodau'n canolbwyntio ar rymuso pobl, swyddi, diogelwch a siopa. Mae gan y Cyngor rôl ysgrifennydd i ddarparu cefnogaeth. Cytunodd cyfarfod ym mis Mehefin ar nodau/amcanion a bydd cyfarfod ym mis Gorffennaf yn cytuno ar ymyriadau'r bwrdd. Mae angen meithrin gallu i gydweithio ar wahanol fentrau yn y Barri.</p> <p>Nododd SR fod unrhyw beth sy'n cefnogi iechyd a lles drwy ddefnyddio gofod y tu allan a bioamrywiaeth yn bwysig. Rhaid annog y boblogaeth i fynd allan, mwynhau'r amgylchedd, a gwella eu hiechyd a'u lles. Yn awyddus i adeiladu ar y cyfle a gyflwynwyd gan Ysbyty Cymunedol y Barri.</p>	

	<p>Dywedodd CB fod creu parciau/mannau agored yn bwysig gan fod pob cynnydd o 1% mewn manau gwyrdd yn arwain at ostyngiad o 2% mewn gordewdra ymhlith plant. Felly mae manau glas/gwyrdd yn bwysig i iechyd meddyliol a chorfforol pawb.</p> <p>Nododd SH fod iechyd a lles y Barri yng nghanol y bartneriaeth. Mae'r Barri wedi'i fendithio â manau gwyrdd ac Ynys y Barri. Edrych i weithio gyda masnachwyr a phobl leol o amgylch treftadaeth a diwylliant lleol i wella'r stryd fawr.</p> <p>Gofynnodd EH a oes cynllun i PGU y Barri ei osod ar wahân i drefi eraill y Fro.</p> <p>Nododd LB y ddogfen 'Stori'r Barri' a dywedodd fod dogfennau diddorol i'w dosbarthu sy'n berthnasol i faterion y cyllid hwn.</p> <p>Nododd TB fod y ffocws ar Ddwyrain y Barri yn bwysig, yn ogystal â'r gofod gwyrdd a glas. Gofynnodd TB am sgwrs ynghylch blaenoriaeth y BGC o fynd i'r afael â'r amddifadedd o fewn y 3 ACEHlau yng Ngogledd-ddwyrain y Barri wedi'u categorio fel rhai o fewn 10% mwyaf difreintiedig Cymru gan MALIC-19. Mae mapio wedi'i wneud i ddelweddu'r annhegwch a gallai hyn fod yn ffordd dda o gysylltu'r BGC â Phartneriaeth y Barri i fynd i'r afael â'r amddifadedd hwnnw.</p> <p>Amlygodd LB ffocws ar sut y gallai person ifanc ym mywyd y Barri fod yn wahanol mewn 10 mlynedd oherwydd gwaith y bartneriaeth. Mae'r heddlu a Gadewch i ni Siarad yn dangos gwybodaeth ddiddorol i'n helpu i ddeall sut beth yw bywyd i bobl. Weithiau byddwn yn dechrau hanner ffordd i fyny'r ysgol ar faterion ac mae angen i ni rannu data er mwyn deall yn iawn beth sy'n digwydd yn ein cymunedau.</p> <p>Nododd DR fod sylfaen gadarn o rannu gwybodaeth wedi'i difrodi gan gyni ond mae partneriaeth â Heddlu De Cymru a gwelliannau mewn gwybodaeth a dadansoddeg wedi helpu i sylwi ar amddifadedd a throeddu. Mae cyfleoedd ym maes plismona na welwyd o'r blaen i wneud bywyd yn well i bobl.</p> <p>Nododd LB y cyfle i ni nodi materion anodd a gofynnodd i HM am sgwrs ar y blaenraglen waith.</p>	
<p>8.</p>	<p>Dull Ymgysylltu ar y Cyd – Helen Moses, Rheolwr Gweithredol Corfforaethol Strategaeth a Mewnwelediad, Cyngor Bro Morgannwg</p> <p>Nododd HM y byddai'n siarad ar ran ST nad oedd yn gallu bod yn bresennol ond sy'n arwain ar y gwaith. Mae papur sy'n adeiladu ar rannu gwybodaeth i helpu cyrraedd pobl a chymunedau wedi cael ei rannu. Mae hwn yn gynnig i ddod â grŵp ynghyd â chynrychiolwyr o bob rhan o bartneriaid BGC yng Nghaerdydd a'r Fro i rannu gweithgarwch ymgysylltu i ddatblygu gwell arfer a rhannu mewnwelediadau. Byddai hyn yn helpu i osgoi dyblygu a gwella ffyrdd o weithio. Gofynnodd EM a yw'r bwrdd yn gefnogol i'r cynnig. Byddai'n rhaid i gydweithwyr fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol a chymryd rhan yng ngwaith y grŵp ymgysylltu.</p>	

	<p>Dyweddod CB ei bod yn gefnogol i'r dull hwn a rhaid symud ymgysylltiad tuag at gyd-gynhyrchu. Yn awyddus i ymgymryd â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd (brechu, gordewdra ac ysmegu).</p> <p>Dyweddod SH bod yn rhaid i ni sicrhau nad yw llais y Fro yn cael ei foddi allan gan Gaerdydd.</p> <p>Nododd HM y byddai'r ffordd ymlaen yn cael ei harchwilio o'r gwaith hwn drwy ddefnyddio dysgu ar arfer gorau i ddefnyddio gwahanol brofiad ar sut i ddatblygu pethau'n lleol i gyrraedd cymunedau. Byddai addasu methodolegau gwahanol yn sicrhau bod gwaith yn bwrpasol ac yn canolbwyntio yn lleol yn ogystal ag yn rhanbarthol. Gallai hyn wella ansawdd yr ymarfer.</p> <p>Dyweddod LB bod angen cydweithio lle mae manteision i weithio'n lleol. Nododd fod Prifddinas-ranbarth yn gweithio gyda'i gilydd ond hefyd ar wahân mewn rhai ardaloedd oherwydd anghenion penodol a demograffeg. Gofynnwyd a oedd partneriaid yn hapus i gytuno ag argymhellion.</p> <p>Cytunodd y partneriaid.</p>	ST
9.	<p>Adroddiad Blynyddol BGC Drafft 2023/24 – Helen Moses Rheolwr Gweithredol Strategaeth Gorfforaethol a Mewnwelediad, Cyngor Bro Morgannwg, Andreas Pieris-Plumley, Swyddog Polisi, Cyngor Bro Morgannwg</p> <p>Cyflwynodd EM yr adroddiad fod APP wedi tynnu at ei gilydd gan ganolbwyntio ar y 3 maes blaenoriaeth ac adeiladu ar y gwaith o'r cynllun diwethaf. Mae'n rhaid i'r BGC gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol hwn ac mae angen i'r Bwrdd ei gymeradwyo i'w gyhoeddi.</p> <p>Nododd APP mai hwn yw Adroddiad Blynyddol cyntaf y Cynllun Lles newydd ac mae ychydig yn wahanol i'r flwyddyn flaenorol. Mae'r adroddiad yn dechrau gyda rhagair byr, crynodeb o gynnwys a chyflwyniad yn dangos y 19 cam a'r berthynas â Chynghorau Tref a Chymuned. Mae Adran 2 yn manylu ar y diweddariadau cynnydd. Manylir ar y gwaith i wneud y Fro yn Oed-gyfeillgar yn gyntaf, ac yna'r gwaith i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn cymunedau difreintiedig, ac yna'r gwaith i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd a Natur. Mae'r adroddiad yn dangos yr holl waith da sy'n cael ei wneud gan bartneriaid BGC.</p> <p>Disgrifiodd APP sut mae'r Siarter Teithio Iach yn ceisio hyrwyddo teithio llesol a chynaliadwy yn y Fro. Mae'r Rhaglen Cynyddu Gwaith Atal yn cynnwys y Strategaeth Symud Mwy Bwyta'n Iach (SMBI) i annog dewisiadau bwyd iach a cheisio atal cyflyrau iechyd yn gynnar gyda llawer o waith a phrosiectau gydag ysgolion, hysbysebu, ymgysylltu ac ati. Mae Partneriaeth y Fro wedi cynnal ymchwil ac ymgysylltu fel Llwybr</p>	

	<p>Bwyd y Fro a datblygu Strategaeth Fwyd newydd 6 blynedd. Mae partneriaeth Bro Ddiogelach yn ceisio lleihau trosedd ac anhrefn. Mae Gwerth yn y Fro (VIV) yn brosiect sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa Blynnyddoedd Cynnar ac Atal ac mae'n annog a chefnogi pobl i wirfoddoli. Mae Crawshaw Court yn gynllun tai yn Llanilltud Fawr, ac mae gweithgareddau gwirfoddoli dan arweiniad SCCH yn cefnogi llesiant trigolion lleol, gan dorri ar draws yr holl amcanion llesiant. Mae sylfaen dystiolaeth BGC yn canolbwyntio ar wella ein mewnwelediadau ac mae'n datblygu'n gyson. Mae'r adran ystyriaethau terfynol/edrych tua'r dyfodol yn crynhoi'r gwaith a chyfeiriad blaengar.</p> <p>Nododd HM fod yr enghreifftiau yn adlewyrchu cyfraniadau partneriaid gwahanol a mynd i'r afael ar y cyd â 19 cam y Cynllun Lles drwy ddull integredig ar draws partneriaid a phrosiectau.</p> <p>Nododd LB y bydd yr adroddiad yn cael ei gylchredeg gan ei fod yn cynnwys cymaint o ddarnau o waith ac awgrymodd hynny er mwyn helpu i gyfleu'r cynnydd sy'n cael ei wneud ei fod yn cael ei gynhoi mewn adrannau llai.</p> <p>Roedd CB yn falch bod yr adroddiad yn adlewyrchu gwaith Cynyddu Gwaith Atal a fydd yn symud ffocws y flwyddyn nesaf o sgrinio i ysmegu oherwydd ei effaith fwy ar iechyd.</p> <p>Dywedodd LB y bydd yr adroddiad ar ôl ei gymeradwyo yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau'r Cyngor. Gofynnodd LB i'r adroddiad gael ei rannu'n eang gan yr holl bartneriaid a'i ddefnyddio/cyfeirio mewn adroddiadau.</p> <p>Cymeradwyodd y partneriaid yr adroddiad.</p> <p>Adroddiad Blynnyddol Drafft BGC 23/24</p>	
<p>10.</p>	<p>Amcanion Lles Drafft Cyngor Bro Morgannwg – Tom Bowring, Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, Cyngor Bro Morgannwg</p> <p>Dywedodd TB fod y Cyngor ym mlwyddyn olaf y Cynllun Corfforaethol 5 mlynedd presennol a'u bod yn dechrau gweithio ar yr amcanion ar gyfer cynllun newydd ar gyfer 2025-30. Mae'r Cyngor yn edrych i wneud rhywbeth gwahanol ac wedi newid y dull o weithio fel sefydliad, gan ganolbwyntio ar yr hyn y mae'r Cyngor eisiau bod erbyn 2030. Amlygodd TB brosiect bwyd Llanilltud Fawr ac ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned fel enghreifftiau o ffyrdd newydd o weithio a'r newid demograffig yn ein cymunedau dros y degawd diwethaf, parhad tlodi, a phoblogaeth sy'n heneiddio fel heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw drwy'r cynllun pum mlynedd newydd.</p> <p>Dywedodd TB y byddai canlyniadau'r Arolwg Beth Am Siarad yn llywio amcanion y Cyngor yn ogystal â'r rhaglen ail-lunio. Tynnodd sylw at rywfaint o'r gwaith a wnaed gan y Cyngor i ddatblygu'r Cynllun newydd, gan gynnwys, y gwaith gyda Swyddfa Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol ynghylch sut y dylai 2100 edrych a thrafodaethau gyda'r cabinet i nodi themâu allweddol y cynllun a beth ddylai fod yn ffocws ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Mae hyn yn debygol o gynnwys ffocws mawr ar gymuned leol, gweithio ochr yn ochr â phobl, trafniadaeth, diogelwch a buddsoddi yn yr ardal mewn ffordd werdd i gefnogi busnesau lleol. Neges allweddol</p>	

	<p>yw mai cymunedau cryf yw pan fydd pobl a lleoedd yn dod at ei gilydd. Cyflwynodd TB y pum Amcan Lles drafft.</p> <p>Nododd TB fod y galw ar ein gwasanaethau yn golygu bod yn rhaid i ni weithio tuag at gymesuredd, er enghraifft canolbwyntio ar roi dechrau da mewn bywyd i bobl a chefnogi/amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed. Mae'r Cyngor yn darparu dros 1000 o wasanaethau, ac ni fyddant i gyd yn cael eu manylu yn y Cynllun Corfforaethol newydd. Mae'n debygol y bydd ffocws ar fynd i'r afael â digartrefedd, diogelwch, mynediad at fwyd o ansawdd da a'r gweithgaredd galluogi y tu ôl i'r llenni. O fewn y cynllun fydd y canlyniadau allweddol i bobl.</p> <p>Pwysleisiodd TB ei bod yn bwysig cydnabod nad ydym 100% mewn rheolaeth o'r holl faterion ond nhw yw'r pethau yr ydym am ddylanwadu arnynt a'u cyflawni mewn partneriaeth, a bydd gan y cynllun fesurau i wella natur agored ac atebolrwydd. O ran y camau nesaf, bydd ymgysylltu dros yr haf gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill gan adeiladu ar yr ymgysylltu a wneir â staff y cyngor. Fe wnaeth TB annog pobl i ddod i'r digwyddiad rhanddeiliaid ar 18 Gorffennaf.</p> <p>Dywedodd LB mai dyma'r amser iawn i fod yn ddewr a siarad yn glir am ein huchelgeisiau a bod yn glir am y pethau rydyn ni'n eu gwneud a gweithio mewn partneriaeth arnyn nhw.</p> <p>Roedd CB yn cefnogi'r ffordd y cafodd ei fframio. Argymhellir ychwanegu'r blynyddoedd cynnar (cyn ysgol). Bydd CB yn sicrhau bod aelod o'i thîm yn mynychu'r digwyddiad ar 18 Gorffennaf. Awgrymodd hefyd ei bod yn dda rhannu mesurau perfformiad ar bethau fel gordewdra gan fod rhaid gwneud y rhain mewn partneriaeth ag ysgolion, hamdden, cydweithwyr bwyd ac ati.</p> <p>Dywedodd LB fod angen bod yn glir ynghylch yr hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni ar gyfer pobl y Fro.</p>	
<p>11.</p>	<p>Hapus - Sgwrs Genedlaethol ar Lles Meddyliol – Claire Beynon, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</p> <p>Dywedodd CB fod lles meddyliol wedi dirywio ers yr oes cyn y pandemig ac mae gan bobl mewn ardaloedd mwy difreintiedig les meddyliol gwaeth. Mae bwlch rhwng deall lles meddyliol ac mae'n yn bwysig a gweithredu arno. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn bwriadu arwain sgwrs genedlaethol i annog pobl i siarad mwy amdano ar 8 Gorffennaf. Y nod yw cynyddu gwybodaeth am les meddyliol a'i gysylltiad â symud mwy a gweithgarwch corfforol. Dywedodd CB fod yn rhaid rhoi blaenoriaeth amser i fynd i'r afael â lles meddyliol yn cael ei weithredu ochr yn ochr â gwaith gyda grwpiau cymunedol. Mae ICC yn recriwtio cefnogwyr ac mae dolen i'r rhai sydd am fod yn gefnogwr swyddogol ar gael. Yn awyddus i adeiladu clymblaid o gefnogwyr lles meddyliol.</p> <p>Nododd LB y gall aelodau BGC gofrestru eu sefydliadau i hyn.</p>	<p>Pob un</p>
<p>12.</p>	<p>Blaenraglen Waith 2024 – Helen Moses, Rheolwr Gweithredol Mewnwelediad a Strategaeth Gorfforaethol, Cyngor Bro Morgannwg</p>	

	<p>Dywedodd HM y byddai'r adroddiadau blynyddol Symud Mwy Bwyta'n lach a'r Fro Ddiogelach a fydd yn cael eu hystyried ym mis Medi yn rhoi mwy o fanylion am y gweithgareddau hyn nag sydd wedi'i gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y BGC. Yn y cyfarfod diwethaf ystyriodd y Bwrdd yr Arolwg Beth Am Siarad a bydd cynnydd pellach ar y gwaith hwn yn cael ei ddarparu mewn cyfarfod yn y dyfodol. Bydd adroddiad ar statws Sir Noddfa yn cael ei gyflwyno i'r BGC yn yr hydref. Gofynnwyd i bartneriaid gysylltu â Helen gydag unrhyw eitemau allweddol eraill y maent am eu cynnwys yng nghyfarfodydd BGC yn y dyfodol.</p>	Pob un
13.	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <p>Achubodd TB ar y cyfle i ddiolch i gydweithwyr BGC a oedd wedi cyfrannu at bwyllgorau craffu diweddar. Dywedodd fod yr aelodau etholedig wedi eu plesio gan ehangder y gwaith. Nododd TB y bydd adroddiadau ar Newid Hinsawdd, Tlodi, Bwyd y Fro ac Oed-gyfeillgar yn mynd i graffu yn ogystal â'r Adroddiad Blynyddol. Mae'r rhain yn rhoi dealltwriaeth i aelodau etholedig o sut rydym yn gweithio mewn partneriaeth. Nodwyd bod croeso i bartneriaid fod yn bresennol, er bod craffu ar ôl 6 o'r gloch (y tu allan i oriau gwaith).</p> <p>Gofynnodd LB i dîm Cyfathrebu'r Cyngor edrych ar eitemau penodol o ddiddordeb ar yr agenda a'u cyfleu trwy bostio dolenni ar gyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo sgysiau gyda'r cyhoedd.</p>	TB
14.	Dyddiad y cyfarfod nesaf - 18 Medi 2024	